**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

5ed o Hydref, 2023

**Presennol:**

John Jones (Cadeirydd), Iddon Edwards, Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Clifford Williams, Michael Jones (Garndolbenmaen), Richard Williams (Prenteg), Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:**

Enid Egginton (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg)

**Datgan Buddiant:**

Neb

**Penderfyniadau:**

**Bwlch y Moch:**

Clerc i anfon cofnodion y cyfarfod fu ar y 27ain o Fedi ymlaen i Gyngor Gwynedd ac i hefyd drefnu cyfarfod arall.

**Parcio Garndolbenmaen:**

Trafodwyd y cynllun llinellau melyn dwbl arfaethedig ar gyfer Garndolbenmaen. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn hapus gyda'r cynllun. Clerc i gadarnhau hyn gyda'r Uned Draffig.

**Cynllunio:**

**NP2/16/464A:** Tir yn Isallt Fawr, Golan, Garndolbenmaen, LL51 9AQ. Gosod tŵr latis 20m o uchder sy'n cynnal 6 antena,4 dysgl trawsyrru, 2 cwpwrdd offer, 1 caban mesur a datblygiad ategol iddo gan gynnwys generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, llecyn llawr caled, trac mynediad newydd a chompownd gyda ffens 2.4m o uchder gyda wal gabion – **Dim gwrthwynebiad**

**C23/0735/36/HD:** Tai Isaf, Garndolbenmaen, LL51 9TJ- Dymchwel modurdy 3.5m wrth 5m o wneuthuriad paneli concrid a tho brig dalennau rhychiog dur gyda drws modurdy esgyn dur - **Dim gwrthwynebiad**